# Ymarferion Darllen a Llafar
## *Reading and Speaking Exercises*



Rhagoriaith
CANOLFAN GWASANAETHAU CYMRAEG

# Llwybr y Gymraeg
# Welsh Pathway
# BA2 2021-22

Darlith/Lecture 9 6

24.3.2022 02.03.2023

Grŵp B


Catrin Evans-Thomas

cj.james@uwtsd.ac.uk


Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant
University of Wales Trinity Saint David

Yr Athrofa
Centre *for* Education
Addysg i Gymru | Education for Wales

www.athrofa.cymru


gyda diolch i Kara Lewis am y deunydd

## sgwrs

**Athrawes:** Bore da blant! Sut ydych chi heddiw?

**Plant:** Bore da! Da iawn, diolch!

**Athrawes:** Sut wyt ti, Nel?

**Nel:** Dw i'n fendigedig, diolch.

**Athrawes:** O da iawn, Nel! Sut mae'r tywydd heddiw?

**Nel:** Mae hi'n oer.

**Athrawes:** Ydy hi'n bwrw eira?

**Nel:** Nac ydy. Ond roedd hi'n bwrw eira ddoe.

**Athrawes:** Oedd! Nawrte. Beth ydy'r dyddiad heddiw, blant?

**Hari:** Ionawr y seithfed. Mae hi'n ddydd Llun.

**Athrawes:** Ydy wir, Hari. Diolch yn fawr. Nawrte! Pwy sy'n barod? Nod y wers heddiw ydy dysgu am Awstralia. Sut mae'r tywydd yn Awstralia heddiw?!

**Athrawes:** Bore da blant! Sut ydych chi heddiw?

**Plant:** Bore da! Da iawn, diolch!

**Athrawes:** Sut wyt ti, Nel?

**Nel:** Dw i'n fendigedig, diolch.

**Athrawes:** O da iawn, Nel! Sut m[illegible]r tywydd heddiw?

**Nel:** Mae hi'n oer.

**Athrawes:** [illegible] hi'n bwrw eira?

**Nel:** Nac ydy. Ond r[illegible]d hi'n bwrw eira ddoe.

**Athrawes:** O[illegible]! Nawrte. Beth ydy'r dyddiad heddiw, blant?

**Hari:** Ionawr y se[illegible]ed. Mae hi'n ddydd Llun.

**Athrawes:** Ydy wir, Hari. Diolch yn fawr. Nawrte! Pwy sy'n barod? Nod y wers heddiw ydy dysgu am Awstralia. Sut mae'r tywydd yn Awstralia heddiw?!

sgwrs

sgwrs

**Athro:** Bore da blant! Sut ydych chi heddiw?

**Plant:** Bore da! Da iawn, diolch!

**Athro:** Nawrte. Beth ydy'r dyddiad heddiw, blant?

**Hari:** Ionawr y seithfed. Mae hi'n ddydd Llun.

**Athro:** Da iawn, Hari. Sut wyt ti, Nel?

**Nel:** Dw i'n fendigedig, diolch.

**Athro:** O da iawn, Nel! Sut mae'r tywydd heddiw?

**Nel:** Mae hi'n oer.

**Athro:** Ydy hi'n bwrw eira?

**Nel:** Nac ydy. Dydy hi ddim yn bwrw eira. Ond roedd hi'n bwrw eira ddoe.

**Athro:** Oedd. Mae hi'n gynhesach heddiw. Diolch byth!

# sgwrs

**Athro:** Bore da blant! Sut ydych chi heddiw?

**Plant:** Bore da! Da iawn, diolch!

**Athro:** Nawrte. Beth ydy'r dyddiad [illegible]ddiw, blant?

**Hari:** Ionawr y seithfed. Mae hi'n ddydd Llun.

**Athro:** Da iawn, Hari. Sut wyt ti, Nel?

**Nel:** Dw i'n fendigedig, diolch.

**Athro:** O da iawn, Nel! Sut [illegible]e'r tywydd heddiw?

**Nel:** Mae hi'n oer.

**Athro:** [illegible] hi'n bwrw eira?

**Nel:** Nac ydy. Dydy hi ddim yn bwrw eira. Ond r[illegible]d hi'n bwrw eira ddoe.

**Athro:** Oedd. Mae hi'n gyn[illegible]ach heddiw. Diolch byth!

| | |
|---|---|
| **Athrawes:** | Prynhawn da bawb! Alys? Faint o'r gloch ydy hi? |
| **Alys:** | Mae hi'n un o'r gloch, Miss. |
| **Athrawes:** | O da iawn. Mae hi'n amser cofrestru. Alys? |
| **Alys:** | Yma! |
| **Athrawes:** | Dafydd? |
| **Dafydd:** | Yma.... |
| **Athrawes:** | Da iawn. Faint o'r gloch ydy hi nawr, Mair? |
| **Mair:** | Mae hi'n hanner awr wedi un. |
| **Athrawes:** | Hanner awr wedi un! O na, mae hi'n amser côr! Roedd hi'n amser côr am bum munud ar hugain wedi un! Rydyn ni'n hwyr. Eto! Ewch yn gyflym i'r neuadd, bawb! |

sgwrs

**Athro:** Bore da bawb! Mae hi'n braf iawn heddiw! Nawrte, mae hi'n amser cofrestru. Ble mae'r gofrestr?

**Mari:** Dyma hi! Mae'r gofrestr o dan y ddesg fawr.

**Athro** O diolch yn fawr, Mari. Ble mae'r pensiliau?

**Mari:** Dyma fe! Mae'r pensiliau o dan y gofrestr!

**Athro:** Diolch eto Mari! Nawrte, Eleri?

**Eleri:** Dw i yma!

**Athro:** Diolch. Sut wyt ti heddiw Eleri?

**Eleri:** Da iawn, diolch.

**Athro:** Siôn?.... Siôn? Ble mae Siôn heddiw?

**Mari:** Mae Siôn yn absennol eto.

**Athro:** O diar.

sgwrs

Heddiw, byddwn ni'n ymarfer sut i ddisgrifio'r tywydd. Rhys, sut mae'r tywydd heddiw? Ydy, mae hi'n bwrw glaw! Da iawn! Edrychwch ar luniau'r tywydd. Nel, sut mae'r tywydd heddiw? Da iawn Nel, mae hi'n oer. Huw, sut mae'r tywydd heddiw? Bendigedig, mae hi'n heulog.

Gwrandewch: Sut oedd y tywydd ddoe? Ailadroddwch: Da iawn! Gwrandewch: Roedd hi'n stormus ddoe. Ailadroddwch: Bendigedig! Nawrte, eich tro chi.  Edrychwch ar y lluniau eto. Sut oedd y tywydd ddoe Lili? Da iawn, roedd hi'n bwrw glaw. Sion, sut oedd y tywydd ddoe? Da iawn, roedd hi'n heulog.





sgwrs

Heddiw byddwn ni'n cymharu Cymru a Botswana. Gwrandewch: Mae Cymru'n oerach na Botswana. Mae Botswana'n boethach na Chymru. Ailadroddwch: Oerach - brrrrr! Poethach - wff! Da iawn, bawb. Oerach, poethach. Edrychwch ar y lluniau. Ailadroddwch eto, oerach, poethach!

Gwrandewch eto:   Mae Cymru'n oerach na Botswana.  Mae Botswana'n boethach na Chymru.

Ydych chi'n gallu clywed y treigladau? poethach...boethach. Cymru.... Chymru.

Gwrandewch ar y brawddegau unwaith eto: Mae Cymru'n oerach na Botswana. Mae Botswana'n boethach na Chymru. Nawrte, eich tro chi. Ailadroddwch.





sgwrs

Prynhawn da bawb! Sefwch yn dawel. Dim siarad. Mae hi'n amser chwarae gêm! Gwrandewch yn ofalus! Mared! Gwranda'n ofalus, os gweli di'n dda.  Iawn 'te. Gwnewch gylch mawr. Dyna chi. Gwych. Rhaid pasio'r bêl o gwmpas y cylch. Peidiwch â siarad, fechgyn! Gwrandewch! O'r gorau, rhaid i chi ateb y cwestiwn, wedyn, rhaid i chi ofyn y cwestiwn i'r person nesaf. Ydych chi'n deall - bodiau i fyny? Da iawn. Bant â ni!

sgwrs

Prynhawn da bawb! _____ yn dawel. ___ siarad. Mae hi'n amser chwarae gêm! __________ yn ofalus! Mared! ________'n ofalus, os gweli di'n dda.  Iawn 'te. Gwnewch ____ mawr. Dyna chi. Gwych. Rhaid pasio'r bêl o gwmpas y cylch. ________ â siarad, fechgyn! Gwrandewch! O'r gorau, rhaid i chi ateb y cwestiwn, wedyn, rhaid i chi ____ y cwestiwn i'r person nesaf. Ydych chi'n deall - bodiau i fyny? Da iawn. Bant â ni!

sgwrs

Dewch i eistedd yn y llyfrgell, bawb.  Dw i eisiau darllen llyfr i chi. Dyma "Merched Beca" gan J.O. Price.

Pwy ydy'r arlunydd?  Macsen Lewis ydy'r arlunydd.

Edrychwch ar y clawr. Ble mae'r stori'n digwydd? Yn Sir Benfro.
Pwy sy ar y clawr? Mae dyn yn gwisgo sgert a ffedog, a het Gymreig.
Pam?  Gwrandewch arna i.

sgwrs

y llyfrgell
Dw i eisiau darllen llyfr i chi.
Pwy ydy'r arlunydd?
Macsen Lewis ydy'r arlunydd.
Edrychwch ar y clawr.
Ble mae'r stori'n digwydd?
Pwy sy ar y clawr?
Mae dyn yn gwisgo sgert a ffedog, a het Gymreig.
Pam?
Gwrandewch arna i.

the library
I want to read you a book.
Who is the artist?
The artist is Macsen Lewis.
Look at the cover.
Where does the story happen?
Who's on the cover?
A man is wearing a skirt and apron, and a Welsh hat.
Why?
Listen to me.

sgwrs







Diolch i Brick To The Past am ganiatad.

Dewch i eistedd yn y ________, bawb. Dw i eisiau darllen llyfr i chi. Dyma "Merched Beca" gan J.O. Price.
Pwy ydy'r ________? Macsen Lewis ydy'r arlunydd.
Edrychwch ar y ______. Ble mae'r stori'n ________? Yn Sir Benfro.
Pwy sy ar y clawr? Mae dyn yn gwisgo sgert a ffedog, a het Gymreig. Pam? Gwrandewch ____i.

sgwrs

Dewch i eistedd yn y llyfrgell, bawb.  Dw i eisiau darllen llyfr i chi. Dyma "Merched Beca" gan J.O. Price.
Pwy ydy'r arlunydd? Ydych chi'n gallu gweld? Ie, dyna chi: Macsen Lewis ydy'r arlunydd.
Edrychwch ar y clawr. Ble mae'r stori'n digwydd? Ydych chi'n gallu gweld? Ie, dyna chi, yn Sir Benfro. Pwy sy ar y clawr? Ie, dyna chi, mae dyn yn gwisgo sgert a ffedog, a het Gymreig. Pam, tybed? Cawn ni weld.  Gwrandewch arna i.

sgwrs

sgwrs

| | |
|---|---|
| y llyfrgell | the library |
| Dw i eisiau darllen llyfr i chi. | I want to read you a book. |
| Pwy ydy'r arlunydd? | Who is the artist? |
| Ydych chi'n gallu gweld? | Can you see? |
| Macsen Lewis ydy'r arlunydd. | The artist is Macsen Lewis. |
| Edrychwch ar y clawr. | Look at the cover. |
| Ble mae'r stori'n digwydd? | Where does the story happen? |
| Pwy sy ar y clawr? | Who's on the cover? |
| Mae dyn yn gwisgo sgert a ffedog, a het Gymreig. | A man is wearing a skirt and apron, and a Welsh hat. |
| Pam, tybed? | Why, I wonder? |
| Cawn ni weld. | We'll see / let's see |
| Gwrandewch arna i. | Listen to me. |





Diolch i Brick To The Past am ganiatad.

Dewch i eistedd yn y llyfrgell, bawb.  Dw i _______ darllen llyfr i chi. Dyma "Merched Beca" gan J.O. Price.
Pwy ydy'r ________? Ydych chi'n gallu gweld? Ie, dyna chi: Macsen Lewis ydy'r arlunydd.
Edrychwch ar y ____. Ble mae'r stori'n _______? Ydych chi'n gallu gweld? Ie, dyna chi, yn Sir Benfro. Pwy sy ar y clawr? Ie, dyna chi, mae dyn yn gwisgo sgert a ffedog, a het Gymreig. Pam, ______? Cawn ni weld.  Gwrandewch ____ i.

sgwrs

Dewch i eistedd yn y llyfrgell, bawb.  Hoffech chi glywed stori? Dyma "Merched Beca" gan J.O. Price.
Pwy ydy'r arlunydd? Allwch chi weld? Ie, dyna chi: Macsen Lewis ydy'r arlunydd.
Edrychwch ar y clawr. Ble mae'r stori'n digwydd? Ydych chi'n gallu gweld? Ie, dyna chi, yn Sir Benfro. Pwy sy ar y clawr? Ie, dyna chi, mae dyn yn gwisgo sgert a ffedog, a het Gymreig. Pam, tybed? Allwch chi ddyfalu? Na? Wel, cawn ni weld.  Gwrandewch arna i.

sgwrs

sgwrs

y llyfrgell.
Hoffech chi glywed stori?
Pwy ydy'r arlunydd?
Allwch chi weld?
Macsen Lewis ydy'r arlunydd.
Edrychwch ar y clawr.
Ble mae'r stori'n digwydd? Sir Benfro
Pwy sy ar y clawr?
mae dyn yn gwisgo sgert a ffedog, a het Gymreig.
Pam, tybed? Allwch chi ddyfalu?
Cawn ni weld.
Gwrandewch arna i.

*the library.*
*Would you like to hear a story?*
*Who is the artist?*
*Can you see?*
*The artist is Macsen Lewis.*
*Look at the cover.*
*Where does the story happen? Pembrokeshire*
*Who's on the cover?*
*a man is wearing a skirt and apron, and a Welsh hat.*
*Why, I wonder? Can you guess?*
*We'll see.*
*Listen to me.*





Diolch i Brick To The Past am ganiatad.

Dewch i eistedd yn y ________, bawb. Hoffech chi ______ stori? Dyma "Merched Beca" gan J.O. Price.

Pwy ydy'r ________? Allwch chi weld? Ie, dyna chi: Macsen Lewis ydy'r arlunydd.

Edrychwch ar y clawr. Ble mae'r stori'n _______? Ydych chi'n gallu gweld? Ie, dyna chi, yn Sir Benfro. Pwy sy ar y clawr?

Ie, dyna chi, mae dyn yn gwisgo sgert a ffedog, a het Gymreig.

Pam, ______? Allwch chi ddyfalu? Na? Wel, cawn ni weld.

Gwrandewch _____ i.

sgwrs

Prynhawn da bawb! Sefwch yn dawel. Dim siarad. Mae hi'n amser chwarae gêm! Gwrandewch yn ofalus! Mared! Gwranda'n ofalus, os gweli di'n dda.  Iawn 'te. Gwnewch gylch mawr. Dyna chi. Gwych. Rhaid i chi basio'r bêl o gwmpas y cylch. Peidiwch â siarad, fechgyn! Gwrandewch! O'r gorau, pan fyddwch chi'n dal y bêl, hoffwn i i chi ateb y cwestiwn, wedyn, taflwch y bêl a gofynnwch gwestiwn i'r person nesaf. Ydych chi'n deall - bodiau i fyny? Da iawn. Bant â ni!

sgwrs

Prynhawn da bawb! ______ yn dawel. Dim siarad. Mae hi'n amser chwarae gêm! ___________ yn ofalus! Mared! ________'n ofalus, os gweli di'n dda. Iawn 'te. Gwnewch ____ mawr. Dyna chi. Gwych. Rhaid i chi basio'r bêl o gwmpas y cylch. ________ â siarad, fechgyn! Gwrandewch! O'r gorau, pan fyddwch chi'n dal y bêl, ______ i i chi ateb y cwestiwn, wedyn, taflwch y bêl a gofynnwch _________ i'r person nesaf. Ydych chi'n deall - bodiau i fyny? Da iawn. Bant â ni!

sgwrs

sgwrs

| | |
|---|---|
| Sefwch yn dawel | Stand quietly |
| Dim siarad | *No talking* |
| Mae hi'n amser chwarae gêm! | *It's time to play a game!* |
| Gwrandewch yn ofalus | *Listen carefully (plural)* |
| Gwranda'n ofalus | *Listen carefully (singular)* |
| Gwnewch gylch mawr | *Make a big circle (Plural)* |
| Rhaid pasio'r bêl o gwmpas y cylch | *The ball must be passed around the circle* |
| Peidiwch â siarad, fechgyn! | *Don't talk, boys! (plural)* |
| Rhaid i chi ateb y cwestiwn | *You have to answer the question (plural)* |
| Gofynnwch gwestiwn i'r person nesaf | *Ask the next person a question (plural)* |
| Hoffwn i i chi ateb y cwestiwn | I would like you to ask the question. *(plural)* |



| | |
|---|---|
| os gweli di'n dda | please |
| O'r gorau | *OK, then / right then* |
| Ydych chi'n deall? | *Do you understand?* |
| Bodiau i fyny | *Thumbs up* |
| Bant â ni | *Off we go* |

Bore da, bawb. Eisteddwch yn dawel os gwelwch yn dda. Mae hi'n amser ymarfer. Agorwch eich llyfrau i dudalen 6 - lliwiau. Ydych chi'n cofio'r lliwiau? Da iawn, chi. Gweithiwch mewn parâu. Yn gyntaf, darllenwch y lliwiau. Yn ail, chwiliwch am y lliwiau yn y dosbarth. Ysgrifennwch y lliwiau yn eich llyfrau. Ydych chi'n cofio geiriau'r dosbarth? Defnyddiwch y mat iaith.

Yn drydydd, byddwn ni'n chwarae **Cipio Cymraeg**! Rhowch eich llyfr ar y bwrdd. Ewch o gwmpas yr ystafell. Edrychwch ar lyfrau pawb arall.

Ewch yn ôl i'ch llyfr. Rhaid i chi ysgrifennu'r geiriau rydych chi wedi cipio! Barod? Un, dau, tri, bant â chi!

sgwrs

sgwrs

| | |
|---|---|
| Yn gyntaf | Firstly |
| Yn ail | Secondly |
| Yn drydydd | Thirdly |
| Mae hi'n amser ymarfer | It's practice time. |
| Agorwch eich llyfrau i dudalen 6 | Open your books to page 6 |
| Gweithiwch mewn parâu | Work in pairs |
| Chwiliwch am y lliwiau yn y dosbarth | Look for the colours in the class. |
| Ysgrifennwch y lliwiau yn eich llyfrau | Write the colours in your books |
| Ydych chi'n cofio geiriau'r dosbarth? | Do you remember the class words? |
| Defnyddiwch y mat iaith | Use the language mat |
| Byddwn ni'n chwarae Cipio Cymraeg! | We'll play Sentence Stealers! |
| Rhowch eich llyfr ar y bwrdd | Put your book on the table |
| Ewch o gwmpas yr ystafell | Go around the room |
| Edrychwch ar lyfrau pawb arall | Look at everyone else's books |
| Ewch yn ôl i'ch llyfr | Go back to your book |
| Rhaid i chi ysgrifennu'r geiriau rydych chi wedi cipio! | You must write the words you have stolen! |



Prynhawn da, Flwyddyn 6. Heddiw, byddwn ni'n dysgu am Gymru. Pwy sy'n cofio stori Jac Abertawe? Da iawn, bawb. Ewch i nôl eich llyfrau os gwelwch yn dda. Agorwch eich llyfrau i stori Jac. O'r gorau, Heddiw, byddwn ni'n ysgrifennu cerdd am Jac Abertawe. Rhaid i chi ddefnyddio'r mat iaith. Gweithiwch mewn parâu.

Wel, bendigedig bawb! Rydw i wedi mwynhau! Ydych chi wedi mwynhau? O da iawn. Iawn, gorffennwch eich gwaith yn dawel, wedyn, rhowch eich llyfrau yn eich dreiriau. Diolch, Flwyddyn 6.

sgwrs

Prynhawn da, Flwyddyn 6. Heddiw, byddwn ni'n dysgu am Gymru. Yn y wers ddiwethaf, dysgon ni am Jac Abertawe. Pwy sy'n cofio stori Jac Abertawe? Da iawn, bawb. Ewch i nôl eich llyfrau os gwelwch yn dda. Agorwch eich llyfrau i stori Jac. O'r gorau, Heddiw, byddwn ni'n ysgrifennu cerdd am Jac Abertawe. Rhaid i chi ddefnyddio'r mat iaith. Gweithiwch mewn parâu.

Wel, bendigedig bawb! Rydw i wedi mwynhau! Ydych chi wedi mwynhau? Ydych chi wedi dysgu rhywbeth newydd? Beth ydych chi wedi ddysgu? O da iawn. Iawn, gorffennwch eich gwaith yn dawel, wedyn, rhowch eich llyfrau yn eich dreiriau. Diolch, Flwyddyn 6.

sgwrs

| | |
|---|---|
| **Athrawes:** | Mae hi'n amser darllen stori. Dewch i eistedd ar y mat, bawb. Dyma stori Branwen. Edrychwch ar y clawr. Pwy ydy'r awdur? Ie, dyna chi! Mererid Hopwood ydy'r awdur. Beth sy ar y clawr? Peidiwch â gweiddi! Dwylo i fyny. |
| **Plentyn:** | Ship! |
| **Athrawes:** | Da iawn! Mae **llong** ar y clawr. **Llong** (ship) **llong**. Ailadroddwch "Llong". Da iawn chi. Pwy ydy e? |
| **Plentyn:** | Bendigeidfran! |
| **Athrawes:** | Ie, Bendigeidfran ydy e. Pwy ydy hi? |
| **Plentyn:** | Branwen! |
| **Athrawes:** | Ie, Branwen ydy hi. Sut mae Branwen yn teimlo? |
| **Plentyn:** | Trist. |
| **Athrawes:** | Trist - o diar. Mae hi'n teimlo'n drist. Sut mae Bendigeidfran yn teimlo? |
| **Plentyn:** | Crac! |
| **Athrawes** | Ie! Mae e'n teimlo'n grac. |

sgwrs

**Athrawes:** Mae hi'n amser darllen stori. Dewch i eistedd ar y mat, bawb. Dyna chi. Gwych. Dyma stori Branwen. Edrychwch ar y clawr. Pwy ydy'r awdur?

**Plant:** Mererid Hopwood

**Athrawes:** Ie, dyna chi! Mererid Hopwood ydy'r awdur. Beth sy ar y clawr? Peidiwch â gweiddi! Dwylo i fyny.

**Plentyn:** Ship!

**Athrawes:** Da iawn! Mae **llong** ar y clawr. **Llong** (ship) **llong**. Ailadroddwch "Llong". Da iawn chi. Pwy ydy e?

**Plentyn:** Bendigeidfran!

**Athrawes:** Ie, Bendigeidfran ydy e. Pwy ydy hi?

**Plentyn:** Branwen!

**Athrawes:** Ie, Branwen ydy hi. Sut mae Branwen yn teimlo?

**Plentyn:** Trist.

**Athrawes:** Trist - o diar. Mae hi'n teimlo'n drist. Sut mae Bendigeidfran yn teimlo?

**Plentyn:** Crac!

**Athrawes:** Ie! Mae e'n teimlo'n grac. Nawrte, beth fydd yn digwydd yn y stori? Pwy sy'n gallu dyfalu?

sgwrs

| | |
|---|---|
| **Athrawes:** | Dyma'r llyfr "Beth welwch chi?" - Beth welwch chi? Neu "Beth ydych chi'n gallu weld?" Iawn 'te. Dyma ni ar y fferm. Pwy ydy hon? |
| **Plentyn:** | Cyw! |
| **Athrawes:** | Ie, Cyw ydy hi. Beth mae hi'n wneud? |
| **Plentyn:** | Garddio. |
| **Athrawes:** | Da iawn. Mae hi'n garddio.  Sut mae hi'n teimlo? |
| **Plentyn:** | Hapus. |
| **Athrawes:** | Da iawn, mae hi'n hapus. Pam mae hi'n hapus? |
| **Plentyn:** | Achos mae hi'n heulog. |
| **Athrawes:** | Wrth gwrs, mae hi'n hapus achos mae hi'n heulog. Beth ydy hwn? |
| **Plentyn:** | Rhaca. |
| **Athrawes:** | Da iawn, rhaca ydy hwn. Beth ydy hon? |
| **Plentyn:** | Bwced! |
| **Athrawes:** | Gwych. Bwced ydy hon. Ydych chi'n hoffi'r llun, bawb? |
| **Plant:** | Ydyn! |
| **Athrawes:** | Wyt ti'n hoffi'r llun Gwion? |
| **Plentyn:** | Ydw, rydw i'n hoffi'r llun. |

sgwrs

**Athrawes:** Dyma'r llyfr "Beth welwch chi?" - Beth welwch chi? Neu "Beth ydych chi'n gallu weld?" Iawn 'te. Dyma ni ar y fferm. Pwy ydy hon?

**Plentyn:** Cyw!

**Athrawes:** Ie, Cyw ydy hi. Beth mae hi'n wneud?

**Plentyn:** Garddio.

**Athrawes:** Da iawn. Mae hi'n garddio.  Sut mae hi'n teimlo?

**Plentyn:** Hapus.

**Athrawes:** Da iawn, mae hi'n hapus. Pam mae hi'n hapus?

**Plentyn:** Achos mae hi'n heulog.

**Athrawes:** Wrth gwrs, mae hi'n hapus achos mae hi'n heulog. Beth ydy hwn?

**Plentyn:** Rhaca.

**Athrawes:** Da iawn, rhaca ydy hwn. Beth ydy hon?

**Plentyn:** Bwced!

**Athrawes:** Gwych. Bwced ydy hon. Ydych chi'n hoffi'r llun, bawb?

**Plant:** Ydyn!

**Athrawes:** Wyt ti'n hoffi'r llun Gwion?

**Plentyn:** Ydw, rydw i'n hoffi'r llun.

**Anthrawes:** Pam wyt ti'n hoffi'r llun?

**Plentyn:** Achos mae e'n lliwgar.

sgwrs

| | |
|---|---|
| **Athro:** | Nesaf byddwn ni'n paentio llun. Pwy sy'n cofio Meirion Jones, yr arlunydd? |
| **Plant:** | Fi! |
| **Athro:** | Heddiw, byddwn ni'n paentio llun fel Meirion Jones. Ydych chi'n barod? |
| **Plant:** | Ydyn! |
| **Athro:** | Oes ffedog gyda chi? |
| **Plant:** | Oes! |
| **Athro:** | Oes papur gyda chi? |
| **Plant:** | Oes! |
| **Athro:** | Oes brwshys gyda chi? |
| **Plant:** | Oes! |
| **Athro:** | Oes dŵr gyda chi? |
| **Plant:** | Nac oes. |
| **Athro:** | O diar, wel, ewch i nôl dŵr os gwelwch yn dda. Oes problem Mali? |
| **Mali:** | Oes, does dim paent coch gyda fi, a dw i eisiau paentio tîm pêl-droed Cymru. |
| **Athro:** | Dim ots, Mali. Dyma ti. |

sgwrs

| | |
|---|---|
| **Athro:** | Nesaf byddwn ni'n paentio llun. Pwy sy'n cofio Meirion Jones, yr arlunydd? |
| **Plant:** | Fi! |
| **Athro:** | Heddiw, byddwn ni'n paentio llun fel Meirion Jones. Ydych chi'n barod? |
| **Plant:** | Ydyn! Rydyn ni'n barod. |
| **Athro:** | Jac, oes ffedog gyda ti? |
| **Jac:** | Oes! Mae ffedog gyda fi. |
| **Athro:** | Nel, oes papur gyda ti? |
| **Nel:** | Oes! Mae papur gyda fi. |
| **Athro:** | Hari, oes brwshys gyda ti? |
| **Hari:** | Oes! Mae brwshys gyda fi. |
| **Athro:** | Bawb, oes dŵr gyda chi? |
| **Plant:** | Nac oes. |
| **Athro:** | O diar, wel, ewch i nôl dŵr os gwelwch yn dda. Oes problem Mali? |
| **Mali:** | Oes, does dim paent coch gyda fi, a dw i eisiau paentio tîm pêl-droed Cymru. |
| **Athro:** | Dim ots, Mali. Dyma baent coch i ti. |

sgwrs

sgwrs

| | |
|---|---|
| **Athrawes:** | Beth sy'n bod Cai? Wyt ti'n teimlo'n sâl? |
| **Cai:** | Ydw, dw i'n teimlo'n sâl. |
| **Athrawes:** | Oes pen tost gyda ti? |
| **Cai:** | Oes, mae pen tost gyda fi. |
| **Athrawes:** | Oes bola tost gyda ti? |
| **Cai:** | Oes, mae bola tost gyda fi. |
| **Athrawes:** | Iawn. Cer i eistedd yn dawel. Bydda i'n ffonio dy fam. |

| | |
|---|---|
| **Athrawes:** | Gorffennwch eich gwaith nawr, blant. Rydych chi wedi gweithio'n galed iawn. Nel, ga i dy weld di, os gweli di'n dda? |
| **Nel:** | Wrth gwrs! |
| **Athrawes:** | Rwyt ti wedi gweithio'n galed iawn heddiw, Nel. Rwyt ti wedi defnyddio geiriau newydd 'bwyd' ac rwyt ti wedi sillafu'n gywir. Dwyt ti ddim wedi cofio'r atalnodi, wyt ti eisiau help? |
| **Nel:** | Ydw, dw i eisiau help, os gwelwch yn dda. |
| **Athrawes:** | Dim problem. Byddwn ni'n siarad nes ymlaen. Cofia! Mae dy waith di'n dda iawn, Nel. Dal ati. |

sgwrs